# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn annog staff a disgyblion i roi o'u gorau ar bob achlysur. Maent bob amser yn canolbwyntio ar wella lles a dysgu'r holl ddisgyblion. Dros y blynyddoedd diwethaf, maent wedi gwella ymddygiad, presenoldeb a meddylfryd disgyblion fel eu bod mewn lle da i ddysgu. Mae hyn wedi cael effaith bositif iawn ar agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ddod i'r ysgol, bod yn barod i ddysgu tra yno, a gwneud cynnydd da. Mae Dosbarth Pabi, sef y ganolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sydd ar y sbectrwm awtistig, yn rhan greiddiol o fywyd yr ysgol. Mae'r oedolion yno yn ofalgar iawn o'r disgyblion ac yn eu helpu i wneud cynnydd cadarn, yn arbennig yn eu medrau cymdeithasol ac addysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn falch o fod yn rhan o'r ysgol. Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yno ac yn ystyried bod oedolion yn eu parchu ac yn eu trin yn deg.

Mae'r cwricwlwm yn ddiddorol, yn ystyried syniadau disgyblion am yr hyn maent am ei ddysgu, ac yn eu helpu i ddysgu am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas ddysgu iach â disgyblion, sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, yn arbennig wrth siarad Cymraeg. Maent yn ymateb yn effeithiol i waith disgyblion, sy'n eu helpu i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ym mron bob agwedd o'r cwricwlwm. Er hyn, ychydig sy'n ysgrifennu'n gywir yn y Gymraeg, yn arbennig ar frig yr ysgol, a'r lleiafrif sy'n cymryd balchder yng nghyflwyniad eu gwaith ac yn cofnodi'n daclus.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella cywirdeb ysgrifennu Cymraeg disgyblion, yn arbennig ar frig yr ysgol

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cyflwyno’u gwaith yn daclus

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025